**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 25 EBRILL YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Owen Watkin (Cadeirydd); Mr Ceri Stradling; Mr David Powell; Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mrs Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Ross Evans (Swyddog Arolygon); Mr Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr Farhan Khan (Swyddog Arolygon); Mrs Cher Cooke (Swyddog Arolygon) a Mrs Caroline Redmond (Cynorthwyydd Swyddfa)

**Amser Dechrau:** 09:30
**Amser Gorffen:** 12:15

**Ymddiheuriadau:** Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid)

1. **Datganiadau o Fuddiant**

1.1. Ni wnaed unrhyw Ddatganiadau o Fuddiant.

**2. Brîff y Cadeirydd**

**2.1.** Rhoddodd y Cadeirydd frîff i'r Comisiwn ar gyfarfod diweddar gydag Is-adran Noddi'r Comisiwn, a oedd yn cynnwys datblygiadau pellach ar yr ymgynghoriad Papur Gwyn Llywodraeth Leol, a gwblhawyd yn ddiweddar.

**3. Cofnodion y Comisiwn a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2017**

**3.1. Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Mawrth 2017 yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar fân newid.

**4. Materion sy'n Codi**

**4.1.** Ystyriwyd yr adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2017 gan y Prif Weithredwr ar Faterion sy'n Codi.

**4.2. Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad cyfan gan nodi y dylid trafod y mater yn ddiweddarach yn y cyfarfod, a nodwyd cynnydd diweddar ar y materion canlynol hefyd:

- **(Mater 2)** Staffio – Bydd y Swyddog Cymorth Busnes yn ei swydd erbyn mis Mehefin.
  **Rheolwr Cymorth Busnes.**
- **(Mater 3)** Porth Ymgynghori – Mae'r Bwrdd Tendro wedi dewis y cyflenwr y mae'n ei ffafrio, a chynhaliwyd cyfarfod. Ar ôl y cyfarfod, byddant yn rhoi cynnig pellach ar sail nifer o ymholiadau penodol. Bydd hyn yn cael ei adrodd yn un o gyfarfodydd y Comisiwn yn y dyfodol cyn cytundeb terfynol ar ddechrau'r contract. **Dirprwy Brif Weithredwr.**
- **(Mater 9)** Cyfarfod Rhyng-Gomisiynol – Mae opsiynau pellach yn cael eu harchwilio. **Rheolwr Cymorth Busnes.**

**5. Adroddiad Blynyddol 2016-17**

**5.1.** Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 01 Mawrth 2017 gan y Prif Weithredwr.

**5.2.** **Nododd** y Comisiwn amrywiaeth o eglurhadau i'r Adroddiad Blynyddol i'w cynnwys mewn drafft yn y dyfodol.

**5.3.** Bydd Drafft Terfynol o'r Adroddiad Blynyddol yn cael ei roi i'r Comisiwn wedi i'r Cyfrifon Blynyddol gael eu harchwilio, i'w gymeradwyo ymhellach.

6. **Cwyn – Cyngor Sir Gwynedd**

6.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 02 Ebrill 2017 gan y Prif Weithredwr.

6.2. Er mwyn gwella gweithdrefnau'r Comisiwn, cytunwyd y dylid addasu'r Prosesau Arolygu i alluogi Prif Gynghorau i fynegi ffafriaeth ar gyfer cyfarfodydd gyda'r Comisiwn gan ddefnyddio'r Gymraeg, ac os felly, gwneud trefniadau addas ar gyfer cynrychiolwyr y Comisiwn.

6.3. **Nododd** y Comisiwn y gŵyn, a derbyniad Cyngor Gwynedd o esboniad ac ymddiheuriad.

**7. Astudiaeth Dichonoldeb ac Achos Busnes TGCh**

7.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Cyflwynwyd fersiwn ddiwygiedig o'r papur eglurhaol ar gyfer yr eitem agenda hon yn y cyfarfod.

7.2. Ystyriwyd yr Adroddiad a'r materion ynglŷn â'r cynnig yn fanwl, a **Chytunwyd** i gwblhau'r achos busnes gyda Cymwysterau Cymru, i drosglwyddo'r Achos Busnes terfynol, gyda chais am gymorth cyllid, i Is-adran Noddi'r Comisiwn, ac i wahodd swyddogion yr Is-adran i gyfarfod â'r Comisiwn i drafod y cynnig.

8. **Cynllun Gweithredol 2017-18**

8.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2017 gan y Prif Weithredwr.

8.2. **Nododd** y Comisiwn y Cynllun Gweithredol, a **Chytunodd** i gyflwyno'r Cynllun Gweithredol yn ffurfiol i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

**9. Rheoli Risg – Cofrestr Risg**

9.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 10 Ebrill 2017 gan y Prif Weithredwr.

9.2. **Nododd** y Comisiwn y Gofrestr ddiweddaraf.

10. **Adroddiad Cyllideb**

10.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 7 Ebrill 2017 gan y Prif Weithredwr.

10.2. **Nododd** y Comisiwn y ddau achos o orwario:

- Gorwariwyd £1,150 ar Gostau Staff wedi eu Secondio o ganlyniad i'r costau TAW ychwanegol a godir yn dilyn newid i'r ffordd y caiff costau secondeion Llywodraeth Cymru eu talu gan y Comisiwn; a
- Gorwariodd Cyfrifyddiaeth £44 gan fod anfoneb mis Mawrth wedi cael ei derbyn a'i thalu cyn 31 Mawrth yn hytrach nag ar ôl hynny, yn unol â'r hyn sy'n arferol.

**11. Adroddiad Cynnydd Arolygon**

11.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2017 gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

11.2. **Nododd** y Comisiwn y byddai'r cyfarfodydd cychwynnol ar gyfer arolygon Penfro a Thorfaen yn cael eu trefnu ar gyfer ar ôl yr etholiad lleol ym mis Mai.

11.3. **Cytunodd** y Comisiwn i ohirio cyhoeddi cynnig drafft Ffin Tuag at y Môr, 13 Mehefin 2017 gan fod yr Etholiad Cyffredinol yn cael ei gynnal ar 8 Mehefin 2017.

12. **Cyfrifon Blynyddol 2016-17 – Nid yw effaith Safonau Cyfrifo wedi dod i rym eto**

12.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 10 Ebrill 2017 gan y Prif Weithredwr.

12.2. **Cytunodd** y Comisiwn i gynnwys y nodyn yn Nodiadau 2016-17 i'r cyfrifon blynyddol.

13. **Archwiliad y Ddraig Werdd**

13.1. Ystyriwyd yr Adroddiad dyddiedig 18 Ebrill 2017 gan y Cynorthwyydd Swyddfa.

13.2. **Nododd** y Comisiwn ganlyniad yr adroddiad a gwaith y tîm amgylcheddol, a llongyfarchwyd staff y Comisiwn ar ganlyniadau'r archwiliad amgylcheddol.

**14. Calendr Digwyddiadau**

**14.1.** Nododd y Comisiwn y calendr.

**15. Unrhyw Fater Arall**

**15.1.** Hysbysodd y Prif Weithredwr y Comisiwn yn dilyn cyfarfod rhwng yr ysgrifenyddiaeth a'r *Panel Arbenigol ar gyfer Trefniadau Etholaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.* **Nododd** y Comisiwn ddiben, a chanlyniad, y sesiwn friffio.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 23 Mai 2017**